# Sgiliau Prentisiaethau yng Nghymru

## Cyflwyniad

1. **Mae cysoni prentisiaethau ag anghenion economi Cymru yn ganolog i'n polisi sgiliau.** Rydym yn datblygu'n system sgiliau i ymateb yn well i newidiadau mewn diwydiant i alluogi Cymru i gystadlu'n fyd-eang drwy gael gweithwyr sydd â sgiliau technegol a phroffesiynol o'r lefel uchaf.

2. Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Cysoni'r Model Prentisiaethau ag Anghenion Economi Cymru* (2017)[1] yn nodi strategaeth Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn hyfforddiant sy'n darparu manteision economaidd a chymdeithasol; buddsoddi mewn sectorau a galwedigaethau twf i fynd i'r afael â phrinder a bylchau mewn sgiliau sy'n atal cynhyrchiant a thwf. Rydym eisoes yn gweithio gyda chyflogwyr i ehangu a chryfhau llwybrau mewn pynciau STEM, y diwydiannau digidol, technoleg gwybodaeth, a gwasanaethau adeiladu ac ariannol.

3. Yn ystod mis Medi 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Genedlaethol, 'Ffyniant i Bawb'. Ym mis Rhagfyr 2017, er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni 'Ffyniant i Bawb', cyhoeddwyd ein Cynllun Gweithredu ar yr Economi i Gymru. Cyhoeddwyd y Cynllun Cyflogadwyedd ar 20 Mawrth 2018 ac mae'n nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, y rhai sy'n economaidd anweithgar a'r rhai sydd mewn perygl o golli eu swyddi. Mae'r Rhaglen Brentisiaethau'n cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r holl gynlluniau hyn ac yn ei dro bydd yn cyfrannu at helpu Cymru i ymateb i'r pwysau sgiliau sy'n deillio o adael yr UE.

4. Mae'n dull polisi'n gyson â cham 4 Cynllun CBI Cymru ar gyfer Ffyniant (2016), cynllun 10 pwynt Sefydliad y Cyfarwyddwyr ar gyfer Economi Cymru (2016), dogfen CITB Cymru, *Building Skills for the Future* (2016) a dogfen ICAEW, *Partnership for Growth* (2016). Mae hefyd yn gyson â'r argymhellion a'r rhybuddion sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Lloegr ar brentisiaethau a'r ardoll[2] ac adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y DU ar yr un mater yn 2016. Y llynedd, datganodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid fod angen ffocws cryfach ar ansawdd a pholisi wedi'i gynllunio i sicrhau'r effaith mwyaf posibl yn hytrach na'r niferoedd mwyaf[3].

## Blaenoriaethau

5. Ein blaenoriaethu yw:

- **buddsoddi mewn sgiliau lefel uchel yn enwedig mewn meysydd STEM a thechnegol -** mynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau technegol ar lefelau 4 a 5 (cyfwerth â HNC/D) lle mae'r prinder sgiliau mwyaf yn parhau a threialu

[1] https://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/apprenticeships/apprenticeships-skills-policy-plan/?skip=1&lang=cy
[2] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, *Delivering Value through the Apprenticeships Programme*, 2016.
[3] Neil Amin-Smith, Jonathan Cribb, a Luke Sibieta, *Reforms to Apprenticeship Funding in England* (Institute for Fiscal Studies, 2017), 29.

prentisiaethau gradd mewn meysydd blaenoriaeth ar lefel 6. Nid yw prentisiaethau ôl-raddedig a phroffesiynol lefel 7 yn cael eu hariannu yng Nghymru. Mae profiad Lloegr yn dangos bod cyllido sgiliau prentisiaeth lefel 7 yn golled ddi-fuddiant, h.y. efallai y byddai'r canlyniad bwriedig wedi digwydd (i raddau) yn absenoldeb ymyrraeth gan y llywodraeth. Rydym yn canolbwyntio ein buddsoddiad mewn meysydd o angen a fydd yn sicrhau'r canlyniadau economaidd gorau.

- **ysgogi cynhwysiant, cyfle cyfartal** – mae creu cyfle cyfartal yn canolbwyntio ar ddileu rhwystrau posibl i brentisiaethau a brofir gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chwalu cylch sgiliau isel, cyflog isel drwy ddarparu cam i swydd sy'n talu'n well.

- **ymateb i fylchau sgiliau cyfredol a rhagamcanol** – rydym yn rhoi mwy o gymorth i bobl ifanc i bontio'n ddidrafferth i brentisiaeth o goleg addysg bellach neu ysgol.

- **darparu prentisiaethau Cymraeg a/neu ddwyieithog –** darparu mwy o gyfleoedd drwy ddatblygu darpariaeth mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

6. Rydym yn cyflawni'r blaenoriaethau hyn drwy **fuddsoddi £116 miliwn i ddarparu prentisiaethau yn ystod blwyddyn gontract 2018/19** ac yn dal i fod ar y trywydd iawn i gyflawni'n hymrwymiad o 100,000 o brentisiaethau o ansawdd i bob oedran erbyn diwedd tymor y Cynulliad yn 2021.

## Blaenoriaethu buddsoddiad mewn sgiliau lefel uchel sy'n ysgogi twf

### *Cryfhau llais y cyflogwr*

7. Rydym yn cryfhau'n perthynas â chyflogwyr i sbarduno twf drwy gyflwyno trefniadau ar gyfer datblygu prentisiaethau lefel uchel lle rydym yn gweld a oes unrhyw dystiolaeth am angen yng nghyd-destun blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol:

- mae tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn llunio Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau blynyddol sy'n cyfrannu at benderfyniadau buddsoddi prentisiaethau;
- mae Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru, yn gweithredu o dan oruchwyliaeth Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, yn darparu mewnbwn strategol a her gadarn i lywio sgiliau prentisiaethau'r dyfodol. Mae'r Bwrdd Cynghori'n cael ei gadeirio gan Brif Swyddog Gweithredol CBI Cymru, gan ddwyn ynghyd cyflogwyr, cynrychiolwyr cyflogwyr a phartneriaid cymdeithasol i gynnig dealltwriaeth o bolisi a darpariaeth o safbwyntiau gwahanol[4];

[4] Aelodaeth Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru: Cyflogwyr Craidd – Dau gyflogwr wedi'u henwebu o bob rhanbarth Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol – 6 i gyd (mae'n rhaid cynnwys cydbwysedd teg o fusnesau bach a chanolig a busnesau mawr o bob rhanbarth); Aelodau eraill – Cymwysterau Cymru, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Ffederasiwn Busnesau Bach, Cyngres Undebau Llafur Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Chwarae Teg; cyflogwyr a chynrychiolwyr sector ychwanegol i fynychu pan fo angen.

- bydd Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru'n cynghori ar gwmpas ac amrywiaeth fframweithiau partneriaeth sy'n cyflawni'n dda i ddatblygu economi Cymru, gan sicrhau bod bylchau a nodwyd drwy gynlluniau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn cael eu hystyried ac yn derbyn sylw yn fuan a bod y gallu i drosglwyddo prentisiaethau a'u gwerth yn cael ei gynnal i ddiwydiannau sy'n gweithredu ar draws ffiniau.

*Ehangu Prentisiaethau Uwch*

8. Ar sail data 2012, mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn amcangyfrif mai dim ond 10 y cant o oedolion y DU (Lloegr) sy'n meddu ar gymwysterau proffesiynol a thechnegol Lefelau 4 a 5 annibynnol, fel eu dyfarniad uchaf[5]. Roedd hyn yn gosod y DU yn 16$^{eg}$ o blith 19 o wledydd yr OECD gyda data. Yng Nghymru, rydym yn blaenoriaethu buddsoddiad ar ehangu Prentisiaethau Uwch mewn pynciau STEM a phwnc technegol ar lefelau 4 a 5 (cyfwerth â HNC/D), i greu'r genhedlaeth newydd nesaf o weithwyr proffesiynol i ysgogi arferion arloesol, creu cynhyrchion newydd, a chodi lefelau cynhyrchiant.

9. Mae Prentisiaethau Uwch yn helpu i gau'r bwlch sgiliau technegol ac yn hybu cynhyrchiant drwy greu llwybrau newydd i bobl ifanc i swyddi technegol sgiliau canol lle mae'r prinder sgiliau mwyaf yn parhau neu lle nad ydym yn cyflawni cystal â gwledydd sy'n cystadlu â ni. Mae ehangu darpariaeth Prentisiaethau Uwch yn ymateb i argymhelliad Adolygiad Diamond[6] am amrywiaeth well o gymwysterau addysg uwch cylch byr sy'n canolbwyntio ar waith. Yn 2016/17, roedd 11,130 o brentisiaid yn dilyn Prentisiaeth Uwch - 24 y cant o gyfanswm y prentisiaid a oedd yn dysgu.

*Cyflwyno Prentisiaethau Gradd*

10. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos â CCAUC i dreialu Prentisiaethau Gradd, gan ddechrau mis Medi hwn. Ar y dechrau, bydd darpariaeth yn canolbwyntio ar fylchau sgiliau lefel gradd a nodwyd gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ym meysydd Digidol/TGCh a Pheirianneg Uwch. Bydd yr ail gam o'r cynllun peilot yn ehangu darpariaeth i sectorau blaenoriaeth eraill, er enghraifft, iechyd a gofal cymdeithasol. Ym mhob cam, bydd buddsoddiad mewn prentisiaethau gradd yn cael ei benderfynu ar sail tystiolaeth o fylchau/prinder sgiliau a'r effaith ar economi Cymru.

*Gwella Goruchwyliaeth Rheoleiddio a Blaenoriaethu Buddsoddiad*

11. Rydym wedi:
    - gwella cynnwys ein Fframweithiau Prentisiaeth, drwy gyflwyno cymwysterau sy'n diwallu anghenion y diwydiant yn well, er enghraifft. Bydd y broses hon yn parhau wrth i ni adolygu cynnwys ein holl Fframweithiau Prentisiaethau

---

[5] OECD, *Skills Beyond School: Synthesis Report, OECD Reviews of Vocational Education and Training*, 2014.
[6] https://beta.llyw.cymru/adolygiad-o-gyllido-addysg-uwch-threfniadau-cyllido-myfyrwyr-adroddiad-terfynol?

gweithredol gan fod Llywodraeth Cymru'n cynnal goruchwyliaeth reoleiddio fwy trylwyr ar y system brentisiaethau a etifeddwyd gan drefniadau blaenorol a rannwyd gyda Lloegr;

- cyflwyno cyfyngiadau ar brentisiaethau lefel isel mewn meysydd lle nad oes blaenoriaeth i oedolion dros 20 oed mewn Gweinyddiaeth Busnes, Trin Gwallt a Harddwch, Gwasanaeth Cwsmeriaid a Manwerthu (meysydd sy'n cynnwys cymwyseddau sy'n gymharol isel ac nad ydynt yn rhai galwedigaethol benodol);
- cyflwyno mesurau lle mae datblygiad ar gyfer y rhai sy'n dechrau ar brentisiaethau lefel is yn ddidrafferth ac awtomatig. Mae prentisiaid yn haeddu cyfleoedd tebyg i'w cyfoedion Safon Uwch i symud ymlaen i'r lefel nesaf, yn cynnwys prentisiaethau uwch.

12. Ein polisi yw canolbwyntio ar brentisiaethau lefel 3 ac uwch, sydd â chanlyniadau uwch fel rheol a'u llwyddiant mwyaf yn cael ei weld gan wledydd eraill Ewrop. Mae Prentisiaethau Sylfaen yn darparu manteision cyfyngedig i'r farchnad lafur ac mae'n debygol y bydd economi'r dyfodol yn gynyddol yn gweld twf mewn swyddi sy'n gofyn am gymwysterau a sgiliau lefel uchel.

13. Rydym yn parhau i gydnabod gwerth sgiliau lefel mynediad fel platfform defnyddiol ar gyfer cyflawniad uwch ac y gallant fod yn lefel briodol i rai galwedigaethau. Ar y sail hon, byddwn yn parhau i gefnogi prentisiaethau lefel 2 fel y lefel bontio i alluogi ymarferwyr i symud ymlaen i lefel 3 – dylid cael datblygiad awtomatig i brentisiaeth ar lefel 3.

14. Rydym yn monitro effeithiolrwydd a pherthnasedd Prentisiaethau Sylfaen i benderfynu a oes angen dull newydd i fodloni'r gofyniad sgiliau ar gyfer swyddi lefel mynediad.

*Adolygiad o Gyllid Prentisiaethau*

15. Dechreuodd yr Adolygiad o Gyllid Prentisiaethau yn 2017 ac mae ar fin gorffen bellach. Fel rhan o'r adolygiad, mae lefelau gweithgarwch a chostau darparu'n cael eu hadolygu ar gyfer y deg fframwaith prentisiaeth mwyaf cyffredin. I gyd-fynd â hyn, mae swyddogion hefyd wedi cynnal ymarfer ar wahân i edrych ar gostau darpariaeth Sgiliau Hanfodol.

16. Mae'r adolygiad wedi derbyn gwybodaeth a data gan y rhwydwaith darparwyr a chafodd y rhan fwyaf o ddarparwyr gyfle i gyfrannu i'r adolygiad. Mae swyddogion hefyd wedi sefydlu Grŵp Llywio Sector i weithredu fel cyfrwng cyfathrebu a chynghori ar faterion sy'n codi o'r adolygiad. Disgwylir i'r adolygiad ddod i ben yn gynnar y flwyddyn nesaf gyda chyfraddau newydd yn cael eu cyhoeddi i gyd-fynd â'r tendr ar gyfer y cylch nesaf o ddarpariaeth prentisiaethau.

*Adolygu a datblygu fframweithiau*

17. Er mwyn gallu ymateb yn well i anghenion cyflogwyr sy'n newid yn aml rydym yn diwygio trefniadau i ddatblygu cynnwys dysgu fframweithiau, i sicrhau bod gennym brentisiaethau sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion yr economi ac sy'n ymateb i newidiadau'r diwydiant. Bydd cynllun prentisiaethau'n seiliedig ar

argymhellion gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, gwybodaeth y farchnad lafur ac adolygiadau sector a gynhaliwyd gan Cymwysterau Cymru.

18. Mae Cymwysterau Cymru'n cynnal Adolygiadau Sector i sicrhau bod cymwysterau galwedigaethol yn adlewyrchu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr. Bydd Cymwysterau Cymru'n ystyried a yw'r cymwysterau a'r system sy'n sail iddynt yn effeithiol yn dechnegol ar gyfer pob sector. Y drefn ar gyfer yr adolygiadau sector yw:
    - Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn cynnwys gofal plant a gwaith chwarae) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016;
    - Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018);
    - Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (i'w gyhoeddi yn 2018);
    - Peirianneg, gweithgynhyrchu uwch ac ynni (i'w gyhoeddi yn 2019);
    - Gwasanaethau ariannol (i'w drefnu);
    - Gwasanaethau cwsmeriaid a manwerthu (i'w drefnu);
    - Teithio a thwristiaeth (i'w drefnu);
    - Lletygarwch ac arlwyo (i'w drefnu).

19. Mae canlyniad yr adolygiadau hyn yn cyfrannu at gynnwys prentisiaethau, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol. Ar yr un pryd, byddwn yn lleihau nifer y fframweithiau prentisiaeth i sicrhau eu bod yn cyfateb yn well i anghenion yr economi ac yn cryfhau'r cynnwys. Bydd Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru'n cynghori ar ddatblygiadau fframwaith prentisiaeth gyda'r nod o ddarparu uchafswm o 30 fframwaith sy'n cyflawni'n dda i ysgogi economi Cymru.

20. Gyda'r cefndir hwn, mae Llywodraeth y DU yn cyflwyno lefelau T - rhaglenni astudio technegol newydd ar lefel 3 a fydd yn bodoli ochr yn ochr â phrentisiaethau a phynciau Safon Uwch yn Lloegr mewn 15 llwybr diwydiant. Bydd y lefelau T cyntaf yn cael eu cyflwyno yn 2020 gyda'r cyfan yn cael eu cyflwyno o 2023. Bydd cymwysterau lefelau T yn cael eu datblygu ar sail paneli cyflogwyr yn Lloegr heb unrhyw gyfraniad gan weinyddiaethau datganoledig nac ystyriaeth i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y 3 gwlad. Gan gydnabod bod yr amgylchedd cymwysterau / Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn croesi ffiniau, rydym wedi datblygu Model Celtaidd i deuluoedd galwedigaethol a fydd yn cyfateb ar draws i'r 15 lefel T. Wrth i'r Lefel T ddatblygu ac aeddfedu, byddwn yn parhau i weithio i adolygu'n dull yn erbyn y goblygiadau i Gymru.

*Prentisiaethau ôl-raddedig a phroffesiynol lefel 7*

21. Nid yw prentisiaethau ôl-raddedig a phroffesiynol lefel 7 yn cael eu hariannu yng Nghymru. Mae profiad Lloegr yn dangos bod cyllido sgiliau prentisiaeth lefel 7 yn golled ddi-fuddiant, h.y. efallai y byddai'r canlyniad bwriedig wedi digwydd (i raddau) yn absenoldeb ymyrraeth gan y llywodraeth. Yn Lloegr, mae cyrsiau datblygiad proffesiynol yn cael eu hail-labelu fel 'prentisiaethau' er mwyn cael cyllid gan y llywodraeth. Mae cyrsiau cyfredol, yn cynnwys cyrsiau Meistr mewn Gweinyddiaeth Busnes wedi'u hailgynllunio, yn cael eu marchnata fel prentisiaethau.[7] Mae costau'n cael eu symud i ffwrdd o'r cyflogwr neu'r unigolyn, tuag at y llywodraeth. Yng Nghymru, mae gennym lwybrau i unigolion neu

[7] The great training robbery: assessing the first year of the apprenticeship levy (2018) – Reform: http://www.reform.uk/publication/the-great-training-robbery-assessing-the-first-year-of-the-apprenticeship-levy/

gyflogwyr ariannu gweithwyr i gaffael sgiliau lefel 7, drwy gynlluniau benthyciad yn bennaf.

*Ardoll Prentisiaethau*

22. Rydym wedi cyflwyno dull clir i ddangos sut y gall cyflogwyr sy'n talu ardollau gael mynediad at ddarpariaeth prentisiaethau a dylanwadu arni, gan barhau i bwysleisio nad oes unrhyw arian newydd ar gael i Gymru yn sgil yr Ardoll Prentisiaethau:
    - mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn ymgynghori â chyflogwyr sy'n talu ardollau er mwyn nodi'r galw am sgiliau a phenderfynu pa feysydd y dylid buddsoddi ynddynt;
    - mae tîm o gynghorwyr wedi'i sefydlu i gefnogi cyflogwyr sy'n talu ardollau os yw'r hyfforddiant yn berthnasol i sectorau â blaenoriaeth;
    - cyhoeddi canllaw ffeithiol ar gyfer y rhai sy'n talu'r ardoll yng Nghymru, gan gynnwys manylion am sut i fanteisio ar y rhaglen;
    - cyhoeddi canllaw ffeithiol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru.

23. Mae buddsoddiad yn canolbwyntio ar sectorau â blaenoriaeth a lefelau uwch mewn meysydd technegol:
    - cydnabod y bydd gan gyflogwyr anghenion datblygu'r gweithlu o hyd ar gyfer rhaglenni hyblyg, tymor byr mewn ardaloedd nad oes ganddynt flaenoriaeth;
    - defnyddio buddsoddiad i sicrhau'r effaith fwyaf a pharhau i weithio gyda chyflogwyr i sicrhau bod prentisiaethau'n diwallu eu hanghenion;
    - fel y nodwyd uchod (paragraff 11) rydym wedi cyflwyno cyfyngiadau ar brentisiaethau lefel isel mewn ardaloedd nad oes ganddynt flaenoriaeth ar gyfer y rhai dros 20 oed.

24. Mae diddordeb mewn prentisiaethau'n cynyddu ymysg cyflogwyr sy'n talu'r Ardoll. Er mwyn rheoli'r galw sy'n dod i'r amlwg, a'r galw cudd, buom yn gweithio gyda chwmnïau mawr a'r sector cyhoeddus o dan 'glystyrau' sgiliau:
    - Iechyd - Nyrsio Deintyddol, Therapïau Arbenigol, Technegydd Labordy, Gwybodeg Data a Fferylliaeth.
    - Y Blynyddoedd Cynnar a Gofal.
    - Y Sector Cyhoeddus – cynnwys prentisiaethau mewn cynlluniau gweithlu'r sector cyhoeddus.
    - Yr Economi Sylfaenol - y Sector Bwyd a Diod, Pysgodfeydd, Amaethyddiaeth a Ffermio, Sgiliau Treftadaeth a Sgiliau Adeiladu Treftadaeth, Manwerthu a Chwaraeon.
    - Meysydd Gwerth Uchel - Amgylcheddol/Datgarboneiddio, Gwyddorau Bywyd, Metro/Rheilffordd, TGCh (seiber, data mawr, meddalwedd), Cyfreithiol, Rheoli Siartredig; Adeiladu, Ynni, y Cyfryngau/Newyddiaduraeth, Awyrofod, Systemau Gwella Parhaus a Pheirianneg a Gweithgynhyrchu.

*Annog BBaChau i ddefnyddio prentisiaethau*

25. Rydym yn cynnig cymhelliad o hyd at £3,500 ar gyfer BBaChau (nad ydynt yn cyflogi prentisiaid ar hyn o bryd) i recriwtio prentis ifanc. Mae tîm Porth Sgiliau

Busnes Cymru yn sicrhau bod gwasanaeth effeithlon yn cael ei gynnig i gyflogwyr sy'n gobeithio recriwtio prentis, ac mae'n datblygu canllawiau ar-lein ar gyfer cyflogwyr i'w helpu gyda'r broses atgyfeirio a recriwtio. Hefyd, mae canllawiau manwl ar gyfer cyflogwyr wedi'u cyhoeddi sy'n cynnwys gwybodaeth am brentisiaethau unigol a sut i gael gafael arnynt.

26. Mewn ymateb i angen a nodwyd gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, rydym yn ymestyn ac yn ehangu rhaglenni Rhannu Prentisiaethau mewn ardaloedd eraill o Gymru y tu allan i Ardal Tasglu'r Cymoedd, gan ymrwymo £0.75m yn 2018-19 a £0.75m yn 2019-20.

27. Mae tîm o Reolwyr Ardoll Prentisiaethau (Llywodraeth Cymru a Darparwyr Prentisiaethau) wrthi'n gweithio gyda BBaChau, ac mae busnesau mawr yn hyrwyddo recriwtio er mwyn cefnogi anghenion busnes. Er mwyn ategu hyn, rydym yn gweithio'n agos gyda'r Ffederasiwn Busnesau Bach er mwyn deall sut y gallwn glystyru darpariaeth mewn sectorau penodol, gan helpu BBaChau i fanteisio ar y rhaglen.

**Hyrwyddo cynhwysiant, cydraddoldeb a chyfle cyfartal**

28. Mae gennym gyfrifoldeb i dorri'r cylch sgiliau isel a chyflogau isel a gwella cyfleoedd bywyd pobl. I lawer o bobl – yn enwedig y rhai â chymwysterau isel – nid yw gwaith cyflog isel yn gam tuag at swydd sy'n talu cyflog uwch, ac o ganlyniad mae pobl yn cael eu dal mewn swyddi cyflog isel. Rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar gamu ymlaen i hyfforddiant lefel uwch. Bydd pobl ddifreintiedig yn manteisio'n fwy na neb arall ar ddysgu sgiliau newydd sy'n arwain at gyfleoedd gyrfa, ac mae'r rhaglen brentisiaethau'n darparu'r naill a'r llall trwy'r canlynol:
    - camau sydd wedi'u rhoi ar waith gennym i sicrhau mai dechrau ac nid diwedd y daith yw prentisiaethau lefel is;
    - cyhoeddi pecyn cymorth cydraddoldeb cynhwysfawr i gefnogi darparwyr a chyflogwyr, gan gynnwys modiwlau penodol ar hunaniaeth o ran rhywedd, stereoteipio a rhagfarn anymwybodol;
    - gweithio i gynyddu nifer y bobl anabl sy'n dilyn prentisiaeth, er enghraifft, Remploy yn paru'r rhai sy'n cymryd rhan yn rhaglen Dewis Gwaith ym maes prentisiaethau;
    - datblygu cynllun gweithredu gyda grwpiau â buddiant er mwyn cefnogi pobl ag anableddau (i'w gyhoeddi yn yr hydref).

29. Sicrhau bod darparwyr a chyflogwyr yn mynd i'r afael ag unrhyw fater a godir gan elfen Cymru o Arolwg Cyflogau Prentisiaethau'r DU.

**Ymateb i fylchau sgiliau presennol a bylchau sgiliau a ragwelir**

30. Er mwyn ymateb i fylchau sgiliau yn y dyfodol, rydym yn cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cychwyn prentisiaethau. Ar hyn o bryd, mae tua 19 y cant o brentisiaid rhwng 16 a 19 oed, ac mae tua 27 y cant o'n prentisiaid rhwng 20 a 24 oed. Rydym yn

trawsnewid cyngor ar yrfaoedd, yn ogystal ag arweiniad a chymorth ynglŷn â'r dewisiadau gwahanol sy'n cael eu creu ar gyfer pobl ifanc. Mae sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn cymorth i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r farchnad lafar yn allweddol, waeth a ydynt yn gwneud hynny ar ôl gadael coleg addysg bellach neu'n syth o'r ysgol. Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi rhoi mesurau ar waith i helpu i ennyn diddordeb pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol neu'r coleg:

- Cyflwyno **Prentisiaethau Iau** ar gyfer disgyblion rhwng 14 ac 16 oed fel cam cyntaf tuag at brentisiaeth.
- Cynnig **taliad uwch i ddarparwyr** er mwyn eu hannog i dderbyn prentisiaid rhwng 16 a 19 oed.
- **Ymgyrchoedd blynyddol i godi proffil prentisiaethau**, a chanolbwyntio ar hysbysebu prentisiaethau pan fydd myfyrwyr yn gadael yr ysgol neu'r coleg er mwyn cynnig dewis eang.
- Mae'r **Rhaglen Paratoi ar gyfer Prentisiaeth** ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed yn helpu pobl ifanc i ddechrau addysg alwedigaethol ar lefel 3 hyd yn oed os oes ganddynt gymhwyster academaidd cyfwerth.

31. Teitl ein datblygiad mwyaf yw **Rhowch gynnig arni**, a'i nod yw codi proffil addysg alwedigaethol trwy roi cyfle i bobl ifanc gael profiad galwedigaethol mewn coleg neu ysgol. Mae wedi bod yn hynod lwyddiannus, gan ymgysylltu â thros 55,000 o bobl ifanc dros y flwyddyn ddiwethaf.

32. Mae Gyrfa Cymru wedi sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer y cynghorwyr sy'n gweithio gydag ysgolion, ac mae wedi paratoi amrywiaeth eang o adnoddau dwyieithog i helpu pobl ifanc i feddwl am eu dewisiadau.

**Darparu prentisiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n ddwyieithog**

33. Mae cynllun gweithredu i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sectorau ôl-16 wrthi'n cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r Coleg wedi cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes addysg uwch yn y gorffennol, ond mae ei gylch gwaith wedi'i ymestyn i'r sectorau ôl-16 yn ddiweddar.

34. Mae bwrdd cynghori sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau addysg bellach a phrentisiaethau yn cefnogi'r gwaith hwn, ac aeth ati i gyflwyno ei adroddiad cyntaf i Weinidogion ym mis Gorffennaf. Mae cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu, a bydd yn cael ei gyflwyno i Weinidogion yn yr hydref. Mae camau i gefnogi'r sector wedi'u rhoi ar waith eisoes, gan gynnwys mapio argaeledd adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg, ac ymchwilio i agweddau dysgwyr er mwyn llywio ymyraethau yn y dyfodol.

**Casgliad**

35. Yng Nghymru rydym yn rhoi mwy o bwyslais ar ansawdd prentisiaethau na nifer y prentisiaethau sydd ar gael – gan ddatblygu gwerth a pherthnasedd prentisiaethau er mwyn hybu enw da'r rhaglen. Mae arian cyhoeddus yn brin, ac rydym yn gwario ein cyllid ar hyfforddiant sy'n sicrhau'r budd mwyaf posibl i

Gymru. Mae'r cynlluniau a'r mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith gennym yn cefnogi ac yn cyd-fynd â'r Cynllun Economaidd sy'n ceisio sicrhau economi sgiliau uchel a chystadleuol sy'n arwain at fanteision i bobl ledled y wlad.